

PRICHARD, WILLIAM (bu farw 1713), Bedyddiwr Neilltuol

Enw: William Prichard
Dyddiad marw: 1713
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Bedyddiwr Neilltuol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Richards

un o brif ddisgyblion [John Miles](#). Serch hynny, ym mlynnyddoedd y Weriniaeth, prin y gellir dywedyd ei fod yn ddisgybl cyson ac ufudd iawn i ddelfrydau'r pennaeth; yn fuan wedi ei ordeinio fel gweinidog i'r Bedyddwyr caeth yn y Fenni yn 1653 bu ef (a dau arall o'r eglwys) yn euog o anfon llythyr o ewyllys da at Henry Jessey, prif arweinydd y Bedyddwyr rhydd-gymunol yn y wlad, i'w anfon yn ei dro at eglwys rydd-gymunol Hexham, yr hyn a gyfrif am orchymyn oddi wrth gyfarfod cyffredinol Aberafan (ddechrau 1654) nad oedd Bedyddwyr Gogledd Mynwy ar unrhyw gyfrif i gyd-gymuno â phobl heb eu bedyddio drwy drochiad. Nid oes brawf bod William Prichard wedi derbyn dim tâl erioed oddi wrth yr awdurdodau Piwritanaidd - fel y bu yn hanes [John Miles](#) a'i brif gynorthwyr - er y geirid rhai penderfyniadau fel pe buasai yn euog o hynny; ac felly naturiol yw credu ei fod yn cydfyned a pholisi eglwys y Fenni i ymgroesi'n bendant rhag unrhyw bregethwyr a dderbynai y fath dâl (penderfyniad 11 Gorffennaf 1655). Nid oes brawf bod [Miles](#) yn credu dim mewn arddodiad dwylo ar aelodau unigol, ond sicr yw i William Prichard ac arweinwyr eglwys y Fenni (ac eglwysi'r goror yn gyffredinol) dderbyn yr arfer yn frwdfrydig, er i hynny, medd [Henry Maurice](#) yn 1675, achosi peth rhwyg yn eu plith. Oherwydd colli llyfrau llys 'consistory' Llandaf, ni wyddom fawr am helynt Prichard fel Anghydfurfiwr yn nyddiau'r Adferiad; ond gwyddom i [William Jones](#) o Rydwilym ddod i'r dwyrain yn 1666 neu 1667, cael ei fedyddio gan William Prichard, a derbyn arddodiad dwylo, ac yna ddychwelyd i'r gorllewin gyda'r efengyl driphlyg o fedydd troch, arddodi dwylo, a'r Swper caeth cyfyngedig. Teithiodd William Prichard yng nghwmni [Thomas Watkins](#) i dueddau Rhydwylym i sefydlu'r eglwys newydd ar ddydd Sul, 12 Gorffennaf 1668, ac ni ellir pwysleisio gormod ar y ffaith iddo fod yn ddolen gydiol rhwng Bedyddwyr Ilston a Bedyddwyr y de-orllewin: gorffwys llawer iawn o bwys traddodiad organig y Bedyddwyr Neilltuol ar ysgwyddau William Prichard. Yn 1672, ar 10 Awst, cafodd drwydded i bregethu yn ddi-hun, erbyn hynny yn Llandeilo Pertholau, ychydig i'r dwyrain o'r Fenni; ond sicr yw mai dilynwyr William Prichard oedd y rhan fwyaf o'r 27 Ymneilltuwr a gyfrifwyd yn Llanwenarth yn 1676 a'r 41 yn y Fenni ei hun. Bu farw 27 Tachwedd 1713 yn weinidog ar eglwys y Fenni ers 60 mlynedd. Cyn ei farw yr oedd wedi gweled Deddf Goddefiad yn dod i rym, myned i gymanfa fawr Llundain yn 1689, swcro arweinwyr newyddion a sefydlu cangen eglwysi yn Llanwenarth a'r Trosgoed, gweled cymanfa gyntaf Cymru yn dod i Lanwenarth yn 1700 i lanw'r capel cyntaf a godwyd gan Fedyddwyr Cymru yn 1695.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (1778) (arg. Pontypridd), 210-35

Records of the Churches of Christ, gathered at Fenstanton, Warboys, and Hexham, 1644-1720 (Llundain 1854) (Hansard Knollys Society, 1854) 344

Calendar of State Papers, Domestic Series, Chas. II, E.B. 38A, 232

Broadmead Records (1847, 1865), Add. B, 516

Salt MS. 2112 yn llyfrgell William Salt, Stafford 420-1

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734697](https://www.wikidata.org/wiki/Q20734697)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

